# Ysgoloriaeth KESS

Mae Prifysgol Aberystwyth yn awyddus i benodi myfyriwr MPhil am un flwyddyn i weithio ar brosiect o'r enw:

**Archwilio strategaethau i gynyddu effeithlonrwydd a lleihau ôl troed amgylcheddol prosesau cynhyrchu wyau**

Mae cynhyrchu wyau wedi dod yn bwysicach o lawer yng Nghymru dros y bum mlynedd ddiwethaf. Mae gofyn cynyddol bod cynhyrchwyr wyau yn nodi effeithiau amgylcheddol a'u defnydd o adnoddau. Bydd yr ysgoloriaeth ymchwil hwn yn archwilio dimensiynau technegol a busnes cadwyn gyflenwi wyau benodol.

Prif ffocws yr astudiaeth fydd asesu ôl troed economaidd ac amgylcheddol y broses gynhyrchu, logisteg a'r drefn ddosbarthu, ymchwilio i allyriadau aer, dŵr a phridd, a gwastraff solet, gan ystyried yr effeithiau amgylcheddol sydd wedi'u hymgorffori yn y mewnbynnau a'r rhai sydd hefyd yn digwydd ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi. Bydd cydweithio gyda'r cwmni partneriaethol a'i fusnesau cysylltiedig yn darparu data priodol ar gyfer y dadansoddiadau hyn, ac yn gyfle i nodi a datblygu arloesiadau ar y cyd ar gyfer rheoli'r gadwyn gyflenwi.

Mae'r prosiect hwn mewn partneriaeth â Wynnstay ccc, sy'n gyflenwr mewnbynnau amaethyddol o bwys ac un o'r prif gwmnïau yn y gadwyn gyflenwi wyau. Bydd y myfyriwr yn gweithio gyda'r Ysgol Rheolaeth a Busnes a Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Dylai fod gan ymgeiswyr radd dosbarth cyntaf neu 2:1 da mewn pwnc perthnasol, a dylent fod mewn sefyllfa i gychwyn ar yr ysgoloriaeth ymchwil erbyn 1 Hydref 2013. Ni ddylai'r ymgeisydd gynnal neu ar hyn o bryd fod yn gweithio tuag at gymhwyster ar lefel Gradd Meistr neu uwch. Mae rhan o gyllid y prosiect yn dod o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) drwy law rhaglen Cydgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd, a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae Ysgoloriaethau KESS yn cael eu dyfarnu ar y cyd â phartneriaid allanol. (Mae gwneud cais yn ddigon, nid oes angen i ymgeiswyr chwilio am bartneriaid).

Er mwyn gwneud cais, dylech anfon y ddogfennaeth ganlynol i'r Swyddfa Derbyn Graddedigion (cyfeiriad isod) erbyn 11 Gorffennaf 2013:

1. Ffurflen Gais am Raglen Ymchwil, dau ganolwr. Cewch lawrlwytho'r ffurflen gais a'r ffurflenni geirda o http://www.aber.ac.uk/en/postgrad/howtoapply/.

2. Ffurflen gais KESS wedi'i llenwi (rhowch y cyfeirnod **AU50010** yn y blwch ar y dde ar frig y ffurflen) a CV diweddar. Cewch lawrlwytho'r ffurflenni cais o'r dolenni cyswllt isod.

www.aber.ac.uk/en/ccs/staff-students/funding/kess/

3. Datganiad Personol, hyd at 1,000 o eiriau, lle y byddwch yn manylu am eich profiad a'ch diddordebau a disgrifio pam rydych chi'n ymgeisydd da i'r ysgoloriaeth ymchwil hon. Cyfeiriwch at Ddisgrifiad y Prosiect yn y ddolen isod.

**Gwerth yr Ysgoloriaeth:** £10,130. Bydd arian ychwanegol ar gyfer pob ysgoloriaeth am gostau teithio, offer a hyfforddiant i'ch helpu â'ch ymchwil. Nid yw deiliaid Ysgoloriaethau PhD KESS yn talu ffioedd.

**Amser:** Amser llawn am 1 flwyddyn. (Rhaid cyflwyno traethodau ymchwil erbyn 3 mis ar ôl y flwyddyn astudio a ariannwyd).

**Hyfforddiant:** Mae'n orfodol i bob ysgolhaig KESS gael y Cymhwyster Datblygu Sgiliau Ôl-raddedig (PSDA). Mae'r PSDA yn werth 30 credyd, ac mae'n gymhwyster ychwanegol ar ben yr MPhil.

**Pwy sy'n cael ymgeisio:** Er mwyn cael ysgoloriaeth KESS, rhaid i chi fod yn preswylio, ar adeg ymgeisio, yn Ardal Gydgyfeirio Cymru, ac mae rhaid i chi allu cymryd cyflogaeth yn yr adran Gydgyfeirio pan fyddwch wedi cwblhau'r ysgoloriaeth.

Dyma'r siroedd yng Nghymru sydd yn yr Ardal Gydgyfeirio:

Abertawe
Blaenau Gwent
Caerffili
Castell Nedd Port Talbot
Ceredigion
Conwy
Gwynedd
Merthyr Tydfyl
Pen-y-bont ar Ogwr
Rhondda Cynon Taf
Sir Benfro
Sir Ddinbych
Sir Gaerfyrddin
Torfaen
Ynys Môn

Ynys Môn Am feini prawf pellach sy'n gysylltiedig â'r prosiectau unigol, gweler manylion y prosiectau unigol uchod.

Os hoffech wneud ymholiadau anffurfiol, cewch gysylltu â Prof. Peter Midmore ar pxm@aber.ac.uk neu 01970 622251.

Cyfeiriad ar gyfer ceisiadau:

Swyddfa Derbyn Graddedigion
Canolfan Croesawu Myfyrwyr
Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth
SY23 3FB

**Dyfynnwch y Cyfeirnod: AU50010**

**Dyddiad cau am geisiadau: 11 Gorffennaf 2013**